Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

# Pecyn Recriwtio

## Swyddog Datblygu'r Gweithlu (SDG)

**Dyddiad Cau:** Dydd Sul 25 Mehefin 2023

**Dyddiad Cyfweld:** Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2023



**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**wlga.cymru**

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

**wlga.wales**

# Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Y 22 Cynghorau yng Nghymru yw ein aelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym yn credu bod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni'r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu.

**Ein prif nod** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hybu rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant o dan arweiniad sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, sy'n hybu mwy o ddemocratiaeth
- Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

**Swyddog Datblygu'r Gweithlu (SDG)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cau:** | Dydd Sul 25 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y Cyfweliad:** | Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2023 |

---

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | Graddfa 5 - SCP 33-41 (£39,493 - £47,573) |
| **Cyfnod:** | Cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2025 |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Addysg CLlLC (mewn perthynas â thelerau ac amodau); a Chadeirydd Safonau Hyfforddiant Addysg (ETS Cymru \| Wales) (mewn perthynas â chynllun gwaith a rheoli o ddydd i ddydd) |
| **Lleoliad:** | Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd gyda'r hyblygrwydd i weithio gartref ac o bell yn unol â'n Polisi Gweithio Hyblyg. |

**Swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol:** Ydi
**Cymraeg yn hanfodol:** Nac ydy. Mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu'n rhugl yn ddymunol ar gyfer y rôl hon.

---

**Ynglŷn â CLlLC**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Ei phrif ddibenion yw hyrwyddo llywodraeth leol well, hyrwyddo ei enw da a chefnogi awdurdodau wrth ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae CLlLC yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae'r Gymdeithas yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Mae CLlLC yn credu bod gwasanaethau'n cael eu darparu orau o fewn fframwaith democrataidd o atebolrwydd lleol ac y dylai'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus allu dweud eu dweud gymaint â phosib' ynglŷn â'r modd maent yn cael eu trefnu, eu rheoli a'u hariannu. Llywodraeth leol sy'n cael ei chyfrif fel yr haen o lywodraeth sydd agosaf at ddefnyddwyr gwasanaeth ac sydd yn y lle gorau i ymateb i'w hanghenion. Cydnabyddir mai rôl y llywodraeth ganolog yw pennu'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, ond llywodraeth leol sy'n darparu'r gwasanaeth ar sail amgylchiadau lleol.

Cafodd CLILC ei sefydlu'n wreiddiol yn 1996 fel corff datblygu polisi a chorff cynrychioladol. Ers hynny, mae CLILC wedi datblygu'n sefydliad sydd hefyd yn arwain ar welliant a datblygu, caffael, materion cyflogaeth ac yn cynnal amrywiaeth o gyrff partner sy'n cefnogi llywodraeth leol.

**Ynglŷn â Safonau Hyfforddiant Addysg (ETS Cymru | Wales)**
Prif ddiben ETS Cymru yn sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cefnogi ieuenctid o ansawdd uchel addas a pherthnasol i anghenion cyflogwyr, y gweithwyr eu hunain a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Mae'n gwneud y gwaith hwn ar ran Cydbwyllgor Trafod Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned (JNC) ac mae'n cael ei gefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio cyfrannu at gyflawni addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf i ymarferwyr yn y gred y bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau rhagorol i blant, pobl ifanc a chymunedau.

Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector Gwaith Ieuenctid yng Nghymru trwy'r aelodaeth ETS, sy'n cynnwys sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol ac a gynhelir, yn arbennig Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru, y Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid, darparwyr hyfforddiant o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, undebau llafur, a budd-ddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg ac Estyn.

**Ynglŷn â'r Rôl**
Ar hyn o bryd nid oes strategaeth na chynllun datblygu gweithlu ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, ac un o brif amcanion y Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu (WDIPG) yw datblygu un, yn ogystal â threialu gweithgareddau datblygu'r gweithlu i fod yn sail i ddatblygiadau yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid (YWSIB) i weithredu'r argymhellion, bydd deiliad y swydd yn cydweithio'n agos ag ETS, Llywodraeth Cymru, a'r WDIPG er mwyn gweithredu argymhelliad 13 yn adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim (IYWB):

- Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei ymrwymiad i gefnogi a datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaol sy'n cynnig dilyniant;
- A chefnogi'r WDIPG i roi ffocws ychwanegol ar argymhellion 7 ac 8:
- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith i gefnogi arloesedd o fewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru er mwyn gwella safonau o fewn y sector (mae hyn yn cynnwys Estyn a'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru);
- Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru.

**Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**

<u>Cyfrifoldebau Penodol i'r Raddfa</u>

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i ddatblygu cynlluniau datblygu'r gweithlu ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, ar y cyd ag ETS, LIC, YWSIB, WDIPG a budd-ddeiliaid allweddol eraill;
- Rheoli perfformiad gweithgareddau hyfforddi a datblygu'r gweithlu;
- Datblygu polisi datblygu'r gweithlu gyda budd-ddeiliaid allweddol, a chael dealltwriaeth o bob agwedd ar ddatblygu'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- Rheoli prosiectau sy'n llifo o waith y WDIPG;
- Rheoli pobl a chyllidebau sy'n gysylltiedig â phrosiectau fel hyn, ar y cyd â Chadeiryddion ETS a WDIPG fel sy'n briodol;
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid ar draws y sector gwaith ieuenctid a thu hwnt i gyflawni amcanion y gweithlu;
- Cyfathrebu ac ymgysylltu mewn perthynas â datblygu'r gweithlu ar draws y sector gwaith ieuenctid;
- Gwaith ymchwil a dadansoddi sy'n gysylltiedig â chael dealltwriaeth o anghenion datblygu'r gweithlu; a
- Holl waith gweinyddol cysylltiedig.

<u>Cyfrifoldebau Penodol i'r Swydd</u>

1. Gweithio gydag ETS a'r WDIPG i weithredu Cynllun Peilot Datblygu'r Gweithlu, yn arbennig i ddatblygu dealltwriaeth o:

- gyfyngiadau a materion y gweithlu presennol o ran recriwtio a dargadw gweithlu, gan gynnwys materion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg;
- hyfforddiant cymhwyso sydd ar gael ar lefel gweithwyr cefnogi ieuenctid a gweithwyr ieuenctid gyda'r cyllid sydd ar gael ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw;
- anghenion dysgu proffesiynol (hyfforddiant dechreuol a datblygiad proffesiynol parhaus) y gweithlu gwaith ieuenctid, gan gynnwys y mathau o hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd, sut mae'n cael ei ariannu, a sut y gallai gael ei ariannu yn y dyfodol;
- bylchau mewn darpariaeth hyfforddiant ar hyn o bryd ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â hyn, gweithio gyda phartneriaid i gaffael hyfforddiant priodol, monitro lefelau niferoedd sy'n cymryd rhan, ac effaith yr hyfforddiant, yn unol â nodau ac amcanion y Strategaeth Gwaith Ieuenctid.

2. Ystyried a datblygu cyfleoedd i ariannu hyfforddiant, gan gynnwys:
    - cynllun bwrsariaeth er mwyn i unigolion ymgymryd â hyfforddiant gwaith ieuenctid,
    - cyfeirio at gyllid presennol, ariannu'n uniongyrchol gyda darparwyr hyfforddiant, gan gynnwys ystyried cyfleoedd y tu allan i Gymru;
    - rheoli prosiectau ariannu megis y cynllun bwrsariaeth fel y caiff ei ddatblygu.

3. Meithrin perthnasoedd gwaith da sy'n benodol i'r swydd gyda:
    - CLlLC ac ETS, WDIPG, Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru, y Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid, sefydliadau ieuenctid gwirfoddol ac a gynhelir;
    - budd-ddeiliaid allweddol eraill megis Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac Estyn er mwyn helpu i adeiladu ar systemau a strwythurau presennol.

4. Ysgrifennu a chyfrannu at ysgrifennu dogfennau perthnasol gan gynnwys:
    - Strategaeth a Chynllun Datblygu'r Gweithlu;
    - adroddiadau ymchwil a datblygiad;
    - asesiadau effaith, asesiadau risg ac adroddiadau gwerthuso; ac
    - adroddiad gwerthuso terfynol.

# Manylion am yr Unigolyn

| **Gofynion cymwysterau** | **Hanfodol Y/N** | **Dymunol Y/N** |
|---|---|---|
| • Cymhwyster gwaith ieuenctid proffesiynol a gydnabyddir gan y JNC (RhF) | Y | |
| • Gradd neu gymhwyster galwedigaethol cyfwerth (RhF) | | Y |
| • Gradd Meistr neu Ddoethuriaeth (RhF) | | Y |
| • 4 TGAU gradd A–C neu gymwysterau cyfwerth (RhF) | Y | |
| **Gofynion profiad a Gwybodaeth** | **Hanfodol Y/N** | **Dymunol Y/N** |
| • Profiad o weithio gyda phobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a sefydliadau ieuenctid (RhF a C) | Y | |
| • Profiad o ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gydag ystod o fudd-ddeiliaid allanol er mwyn gweithio tuag at nod a rennir (RhF a C) | Y | |
| • Gwybodaeth am ddatblygu'r gweithlu, hyfforddiant dechreuol a dysgu proffesiynol (RhF) | Y | |
| • Profiad o ysgrifennu, darparu a gwerthuso rhaglenni hyfforddi (RhF a C) | Y | |
| • Profiad o reoli pobl a phrosiectau (C) | Y | |
| • Profiad o weithio gyda phobl eraill ar-lein ac wyneb yn wyneb (RhF) | Y | |
| **Gofynion sgiliau a dawn** | **Hanfodol Y/N** | **Dymunol Y/N** |
| • Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar (C) | Y | |
| • Gallu casglu a dadansoddi gwybodaeth gymhleth a allai wrthdaro (RhF a C) | Y | |
| • Gallu cyflwyno'n glir ac i safon uchel ar-lein ac wyneb yn wyneb (RhF a C) | Y | |
| • Sgiliau rhyngbersonol a brofwyd (C) | Y | |
| • Sgiliau arwain a rheoli da (RhF) | Y | |
| **Gofynion eraill** | **Hanfodol Y/N** | **Dymunol Y/N** |
| • Parodrwydd i deithio ledled Cymru (RhF) | Y | |
| • Mynediad annibynnol at gysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd (RhF) | Y | |
| • Mynediad annibynnol at offer TG (RhF) | | Y |
| • Trwydded yrru lawn (RhF) | | Y |
| • Gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg (RhF) | | Y |

**Rhagor o wybodaeth yma**

Yn ei adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru, 'Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru (Medi 2021), gwnaeth y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim (IYWB) 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu model cyflawni cynaliadwy i wasanaethau gwaith ieuenctid. Mae datblygu a symud yr argymhellion hyn ymlaen yn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, a dyna brif ddiben y Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid (YWSIB), sy'n olynu'r IYWB. Mae gan y Bwrdd nifer o is-grwpiau i helpu i symud eu gwaith ymlaen gan gynnwys Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu (WDIPG).

Mae argymhelliad 13 a wnaed gan IYWB, yn nodi bod angen cefnogi a datblygu'r proffesiwn gwaith ieuenctid, strwythur gyrfaol sy'n cynnig dilyniant, a strategaeth a chynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer y sector gwaith ieuenctid. Bydd y Swyddog Datblygu'r Gweithlu yn chwarae rôl allweddol i ymateb i'r argymhelliad hwnnw. Y cam nesaf yn y gwaith hwn fydd datblygu Cynllun Peilot Datblygu'r Gweithlu, a fydd yn nodi'r ddarpariaeth bresennol o ran hyfforddiant gwaith ieuenctid ac yn edrych ar wahanol ddulliau o ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i ymarferwyr gwaith ieuenctid a gwaith cefnogi ieuenctid ar draws y sector.

Mae'r swydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru ac wedi'i lleoli gyda Safonau Hyfforddiant Addysg (ETS) Cymru o fewn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

# Buddiannau: Gweithio i CLlLC

Mae CLlLC yn le cyffrous i weithio ynddo.

Mae CLlLC wedi ei leoli mewn swyddfeydd cynllun agored newydd, modern yn Un Rhodfa'r Gamlas, Caerdydd ers symud ym mis Rhagfyr 2021. Mae Gorymdaith Un Gamlas yn rhan o ddatblygiad trefol newydd cyffrous, sy'n cynnwys amrywiaeth o amwynderau lleol ac sydd o fewn taith gerdded fer o Orsaf Caerdydd Canolog a Chanol y Ddinas.

Yn ddiweddar, mae CLlLC wedi cyflwyno trefniadau gweithio ystwyth arloesol sy'n rhoi llawer o hyblygrwydd o ran pryd a ble y gwneir gwaith, gyda staff yn gallu cydbwyso gweithio o adref neu leoliadau eraill o bell yn ogystal â mynychu'r swyddfa yn achlysurol. Mae'r swyddfa newydd yn Un Rhodfa'r Gamlas wedi'i harfogi'n llawn o ran cynllun, dodrefn a seilwaith TGCh i gefnogi pob math o arddulliau gwaith unigol a chyfunol.

Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar a chefnogol i staff, ynghyd ag amrywiaeth o fanteision sy'n gysylltiedig â chyflogaeth -

- **Codiadau cyflog cynyddrannol a chyfraniadau i'r cynllun pensiwn llywodraeth leol**
- **27 diwrnod o wyliau, yn codi i 30 ar ôl 3 blynedd ac yna'n codi i 33 ar ôl 8 mlynedd o wasanaeth, ac 8 diwrnod o wyliau'r banc**
- **Polisi gweithio ystwyth sydd yn cynnwys gweithio'n hyblyg a'r opsiynau i weithio gartref.**
- **Cynllun Beicio i'r Gwaith a cyfleusterau benthyciad teithio.**
- **Ystod o bolisïau cefnogol, gan gynnwys egwyliau gyrfa, rhannu swydd, cynllun prynu gwyliau a threfniadau gwyliau eraill.**
- **Absenoldebau mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir hael**
- **Swyddfa wedi'i lleoli'n ganolog yng nghalon un o ddinasoedd mwyaf bywiog y DU**

**Telerau Cyflogaeth**

Mae CLlLC yn cyflogi ei gweithwyr yn ôl amodau'r Cydgyngor Gwladol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol a'r amryw gytundebau lleol sydd wedi'u newid.  Dyma'r prif ofynion:

**Cyflog:**
Byddwn ni'n talu'ch cyflog fesul mis calendr trwy gredyd banc ar y 15fed diwrnod o bob mis neu oddeutu hynny.

**Oriau gwaith**:
Yr wythnos waith safonol yw 36 awr, ond mae trefniadau gweithio ystwyth newydd CLlLC yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer gweithio hyblyg a'r gallu i gydbwyso ymrwymiadau gwaith ochr yn ochr ag amser nad yw'n gweithio a gwyliau blynyddol. Nod y Gymdeithas yw sicrhau bod y manteision sy'n deillio o weithio ystwyth yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel gan sicrhau ar yr un pryd fod pawb o fewn ein gweithlu yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. O fewn y fframwaith gweithio ystwyth hwn, mae gan bob unigolyn gyfrifoldeb i gydweithredu â chydweithwyr i weithredu trefniadau gweithio unigol, tîm a sefydliadol sydd i gyd yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau CLlLC.

**Treuliau teithio a chynnal:**
Un o'r amodau penodi yw bod ein staff yn fodlon gweithio unrhyw le yng Nghymru, gweddill y Deyrnas Gyfunol neu Ewrop ar adegau. Byddwn ni'n talu treuliau teithio a chynnal yn ôl cynllun CLlLC pan fo rhywun yn gweithio y tu allan i'w ganolfan.

**Gwyliau:**
Yr hawl gwyliau am flwyddyn lawn (mae'r flwyddyn wyliau yn weithredol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol) fydd 27 diwrnod i ddechrau, ynghyd â gwyliau statudol. Gallai gweithwyr llywodraeth leol presennol dderbyn gwyliau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth parhaus i lywodraeth leol.

**Pensiwn:**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun cyfrannol yw hwn sydd wedi nodi buddion ar gyfer gweithwyr.
https://mpfmembers.org.uk/content/members-currently-contributing-lgps

**Rhybudd:** Os ydych chi'n bwriadu gadael eich swydd, rhaid rhoi gwybod fis calendr ymlaen llaw. Caiff y cyfnod ddechrau unrhyw ddiwrnod o'r mis. Rhaid i staff uwch roi rhybudd o 3 mis. Yn yr un modd, rhaid i CLlLC roi rhybudd i chi fis calendr ymlaen llaw neu roi rhybudd yn ôl y cyfnod statudol cyfredol, faint bynnag sy'n hiraf.

**Telerau Secondiad**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn parhau'n un o weithwyr ei gyflogwr presennol a fydd yn talu ei gyflog o hyd gan adennill yr arian hwnnw o CLlLC. Ni fydd amodau na thelerau'r gwaith yn newid. Bydd y Gymdeithas yn ad-dalu costau teithio ar gyfer busnes a threuliau a ysgwyddir ar secondiad. Dylai pob ymgeisydd ddarllen polisi secondiadau ei sefydliad, a chael caniatâd ei reolwr cyn cyflwyno cais.

**Swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol CLlLC:**
Ni fydd CLlLC yn penodi staff neu weithwyr mewn unrhyw rinwedd, unrhyw Gynghorydd sy'n Aelod ar hyn o bryd (yn cynnwys aelod cyfetholedig) o awdurdod lleol, neu unrhyw gorff arall sy'n aelod o CLlLC e.e. Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu a oedd wedi bod yn Aelod yn y 12 mis blaenorol (a.116 Deddf Llywodraeth Leol (DLlL) 1972).

Ystyrir y swyddi canlynol yn rhai â chyfyngiadau gwleidyddol (yn unol â'r swyddi awdurdodau lleol hynny a nodwyd yn Adran 2(1) o Ddeddf 1989[1]:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli
- Pob swyddog a delir yn uwch na Phwynt 30 ar y Golofn Gyflog
- Swyddogion eraill sy'n rhoi cyngor rheolaidd i awdurdodau lleol
- Unrhyw swyddog gyda rôl sy'n cynnwys siarad ar ran CLlLC i'r cyfryngau.

Mae WLGA yn cyflogi ei staff yn ôl egwyddorion cyfleoedd cyfartal.

---

**[1] Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008**

## Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynnol ynglŷn â’r swydd a’r sefydliad, cysylltwch â Steve Drowley (Cadeirydd ETS) ar 07590 826679.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad cau, Dydd Sul 25 Mehefin i:

recruitment@wlga.gov.uk

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweld ddydd Mercher 12 Gorffennaf 2023.

Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweliad ar y diwrnod, wedi’i ddilyn gan gyfweliad gyda phanel dethol.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu tystiolaeth o hunaniaeth a chymhwysedd i weithio yn y DU.

Nid yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cymryd rhan yng Nghynllun Nawdd Fisa'r DU felly, bydd rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u hawl i weithio yn y DU pe bai'n cael cynnig rôl gyda ni.